

## **CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG**

Adroddiad o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd **Nos Lun, 14eg Rhagfyr, 2020**, drwy gyfrwng 'zoom' o 7.30 p.m. hyd 8.10 p.m.

Presennol: Y Cynghorydd Elin Hughes (Cadeiryddes)

Y Cynghorydd Dylan Parry Jones (Is-Gadeirydd)

Y Cynghorwyr David Brunelli, Carys H. Evans, Gwenan Griffith, Glyn Roberts, Michael Strain, Carys E. Williams, Glenys Williams, Siôn Williams

Y Cynghorydd Gareth Williams (Y Cynghorydd Sir)

Ymddiheuriad: Y Cynghorydd Ifor Owen

### **58. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

**Croesawodd** y Gadeiryddes yr aelodau i'r cyfarfod.

### **59. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiant personol.

### **60. CADARNHAU COFNODION**

**Cyflwynwyd** a chadarnhawyd cofnodion y Cyngor 9fed Tachwedd, 2020. Cynigiwyd gan Y Cynghorydd David Brunelli ac eiliwyd gan Y Cynghorydd Siôn Williams.

#### **MATERION YN CODI –**

#### **(1) Eitem 50 – Ceisiadau Cynllunio – cymal Hebron Stores, Llangwnnadi (tudalen 2)**

**Adroddodd** y Clarc iddi anfon y gŵyn ynglyn a chreu mynedfa newydd yn Hebron Stores, Llangwnnadi, ymlaen i'r Adran Gynllunio yng Nghyngor Gwynedd. Derbyniwyd ymateb fod yn rhaid dilyn y drefn o wneud cŵyn ffurfiol drwy ffurflen bwrpasol. Yn dilyn gair â'r Gadeiryddes anfonwyd y wybodaeth yma ymlaen at yr aelod ddaeth a'r gŵyn i sylw'r Cyngor. Adroddodd yr aelod ei fod wedi anfon y wybodaeth ymlaen i'r cwynydd.

**Penderfynwyd** derbyn y wybodaeth.

#### **(2) Eitem 57 – Awyr Dywyll (tudalen 4)**

**Adroddodd** y Gadeiryddes y byddai mewn gwell sefyllfa i adrodd ar y pwnc uchod i gyfarfod mis Ionawr o'r Cyngor.

**Penderfynwyd** aros hyd y cyfarfod nesaf.

### **61. CEISIADAU CYNLLUNIO**

#### **Trafodwyd y ceisiadau a ganlyn:**

(a) Cais C20/0714/32/LL – addasu adeiladau allanol yn ddwy uned wyliau – Neigwl Ganol, Botwnnog.

(b) Cais C20/0935/32/DT – sefydlu safle gwerysyla amgen tymhorol, tirluio a gwaith cysylltiedig – Pen y Bryn Lleyn, Brynmawr.

**Penderfynwyd** cefnogi'r ddau gais.

62. **MATERION FFYRDD A LLWYBRAU**  
**Penderfynwyd** anfon y materion a ganlyn ymlaen i'r Adran Priffyrdd, Cyngor Gwynedd:  
 a) Tynllau dwfn yn y ffordd o Graig Fael am Graig Ewig, Bryncroes – angen sylw brys.  
 b) Allt Pretoria, Sarn – angen glanhau'r allt.
63. **MATERION IECHYD**  
 (a) Nid oedd unrhyw fater wedi dod i sylw'r Cyngor i'w anfon ymlaen at Gyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru.  
 (b) Codwyd y cwestiwn beth fyddai'r sefyllfa ym Meddygfa, Botwnnog, yn dilyn ymddeoliad Dr. A. Smits yn y Gwanwyn – a fyddai'r gwasanaeth yn gynladwy gyda dau Feddyg. Hefyd holwyd a fu'r ymdrech i geisio penodi Meddyg newydd yn llwyddiannus.  
**Penderfynwyd** ystyried y camau nesaf yng nghyfarfod mis Ionawr.
64. **CEFNOGAETH I FLAENORIAETHAU LLYWODRAETH CYMRU**  
**Cyflwynwyd** e-bost oddi wrth Alys Lloyd Jones, Swyddog Cefnogi Cymunedau Ardal Dwyfor ynglyn a grantiau sydd ar gael i gaeau chwarae. Gan nad oes gan y Cyngor gae chwarae eu hunain mae'r Swyddog yn gofyn "ydych yn ymwybodol o grwpiau eraill sy'n gwneud hyn yn eich cymuned fyddai a diddordeb ymgeisio am y grant? Os felly, byddem yn ddiolchgar os gallech ddefnyddio eich gwybodaeth leol er mwyn pasio'r gwybodaeth am y cyfle ymlaen iddynt."  
**Penderfynwyd** fod yr aelodau i basio'r wybodaeth ymlaen i'r cyhoedd.
65. **AWDURDOD I DALU**  
**Penderfynwyd** awdurdodi'r taliadau a ganlyn:
- |   |                         |
|---|-------------------------|
| Cyflog y Clarc                            | £372.55 (siec 200711)   |
| HMRC                                      | £ 93.20 (siec 200712)   |
| J.A. Pozzi – torri gwellt Comin Bryncroes | £1,080.00 (siec 200713) |
| J.A. Pozzi – barbio llwybrau              | £ 180.00 (siec 200713)  |
- Ac o Gyfrif y Fynwent  
 J.A. Pozzi – torri gwellt Mynwent Llandegwning £ 612.00
- (Tra bu'r Cyngor yn trafod cyflog y Clarc bu iddi gael ei rhoi yn yr ystafell aros).
66. **TENDRAU BARBIO**  
**Penderfynwyd** rhoddi hysbyseb yn Llanw Llyn i wahodd tendrau am farbio Comin Bryncroes, Mynwent Llandegwning a phris yr awr am farbio llwybrau yn y Gymdeithas. Yr un telerau a'r llynedd i fod yn weithredol.
67. **ARCHWILIAD Y CYFRIFON I FYN Y 31ain MAWRTH, 2020**  
**Adroddodd** y Clarc nad oedd adroddiad y BDO i law hyd yn hyn.

68. **EGLWYS SANT BEUNO, BOTWNNOG**

**Derbyniodd** Y Cynghorydd Gareth Williams, Y Cynghorydd Sir, e-bost gan Y Parchedig Richard Wood, Ficer ac Arweinydd y Tîm Weiniodogaeth Eglwysi Bro Madryn, ynglyn a sefyllfa Eglwys Sant Beuno, Botwnnog.

**Penderfynwyd** gohirio trafodaeth ac fod y cyfryw e-bost i'w ystyried gyda'r ceisiadau ariannol ym mis Ionawr.

69. **TLODI DIGIDOL**

**Cyflwynwyd** llythyr oddi wrth Einir Wyn, Clerc Cyngor Cymuned Llanengan, yn gwahodd y Cyngor "i gyfrannu at neu brynu cyfrifiadu(on) i Ysgol Botwnnog" fel y gwanethpwyd ganddynt hwy yn ddiweddar.

"Yn dilyn y cyfnod clo, pan addysgwyd disgyblion gartref yn yr amseroedd diffgyffelyb hyn, cysylltodd un o'r Aelodau a Phennaeth Ysgol Botwnnog i ofyn faint o blant llai ffodus sydd yn yr ysgol heb gyfrifiadur. Atebwyd bod chwe theulu ac, o ganlyniad, trafododd y Cyngor y posibilrwydd o brynu dau gyfrifiadur (£350 yr un heb TAW) i Lyfrgell yr Ysgol yn hytrach na'r teuluoedd unigol. Yn anffodus, oherwydd argaeledd, ni chyrrhaeddant yr Ysgol tan fis Chwefror.

Cyd-ddigwyddiad wrth ysgrifennu'r llythyr hwn heddiw yw clywed trafodaeth ar y newyddion am y tloidi digidol trwy Gymru. Hyderir, felly, y gall Cyngorau Cymuned a Thref eraill, h.y. y rhai o fewn dalgylch yr Ysgol gefnogi'r disgyblion hyn a Illiniaru rhywfaint ar y tloidi digidol ym Mhen Llyn o leiaf."

**Penderfynwyd** cysylltu â Phennaeth Ysgol Botwnnog er ceisio cael cael gwybodaeth beth yw'r angen ac iddo gyflwyno cais i'r Cyngor i'w ystyried.

70. **ANRHEG PENBLWYDD YN 100 OED**

**Cyfeiriodd** y Clarc y penderfynwyd anrhegu Mrs. Jinnie Jones a oedd yn dathlu ei chanfed penblwydd yn ôl ar 7fed Mehefin, 2020, gyda blodau a rhoddwyd yr hawl i'r Clarc archebu'r blodau hyd at uchafswm o £40.00. Adroddodd y Clarc iddi brynu basged o flodau hardd am £40.00 o 'Flower Card' a gofynnodd am hawl i gael ad-daliad o Gronfa'r Cadeirydd amdanynt.

**Penderfynwyd** awdurdodi'r taliad.

71. **CYFARFOD WYNEB YN WYNEB**

**Adroddodd** y Clarc iddi gael cais gan aelod pryd y byddai'r Cyngor yn debygol o ddechrau cyfarfod wyneb yn wyneb. Y teimlad oedd nad oedd hwn yn amser addas i wneud hynny ac mae gwell fyddai cyfarfod drwy gyfrwng 'zoom' am gyfnod ac ail-edrych ar y sefyllfa ymhen dau/dri mis. Gwneir ymholiadau hefyd a Mel ab Owain a Un Llais Cymru ar yr amser hynny er cael barn Un Llais Cymru.

**Penderfynwyd** glynu at y drefn bresennol o gynnal cyfarfodydd drwy 'zoom.'

**Wrth derfynu dymunodd y Gadeiryddes ei diolch i'r aelodau am eu cydweithrediad a Nadolig Llawen iddynt hwy a'u teuluoedd.**

